

Cymorth Cristnogol yn lansio Apêl Frys Daeargryn Haiti

Yn dilyn y daeargryn dinistriol yn Haiti, mae Cymorth Cristnogol wedi lansio apêl frys i helpu'r bobl sydd wedi eu heffeithio.

Mae pobl Haiti yn dal i deimlo effeithiau'r daeargryn a laddodd 300,000 o bobl yn 2010 a chorwynt Mathew yn 2016, ac yn fwy diweddar wedi bod yn delio gydag effaith Covid-19 a llofruddiaeth eu harlywydd. A nawr maen nhw'n gorfod delio â thrychineb arall.

Mae dros 2,000 o bobl wedi eu lladd a thros 130,000 o gartrefi wedi eu dinistrio neu eu difrodi yn sgil y daeargryn diweddaraf hwn. Caewyd ffyrdd gan dirlithriadau ac mae llinellau trydan a chyfathrebu wedi eu dymchwel. Mae pobl wedi colli eu cartrefi, eu heiddo a'u gallu i wneud bywoliaeth.

Ardaloedd y de, Grand'Anse, y de-orllewin a Les Nippes sydd wedi dioddef fwyaf. Mae Cymorth Cristnogol a'i bartneriaid lleol yn gweithio yn Camp-Perrin, Maniche, Les Cayes, Saint Jean, Torbeck a Chantal. Menywod a merched, yr oedrannus a phobl ag anableddau sydd wedi eu heffeithio fwyaf ac mewn perygl o fethu cael mynediad at wasanaethau a chymorth.

Ar hyn o bryd, mae pobl angen lloches frys, bwyd, dŵr yfed, mynediad at ofal iechyd a diogelwch, ond yn y tymor hir byddant angen tai, dull o ennill bywoliaeth a chefnogaeth seicolegol.

Meddai Marc Pascal Desmornes, Rheolwr Rhanbarthol Cymorth Cristnogol yn Haiti, 'Gall y dinistr a'r golled a achoswyd gan y daeargryn effeithio ar fywydau pobl mewn



sawl ffordd, yn gorfforol ac yn gymdeithasol. Rydym yn gweld pobl yn symud i ble bynnag y gallent fod yn ddiogel, heb ddim ond y dillad ar eu cefn.

'Mae nifer fawr o bobl Haiti yn wynebu newyn ac mae'r gwasanaethau iechyd eisoes dan straen oherwydd Covid-19. Mae mynediad ar hyd y ffyrdd i ardal y de, lle digwyddodd y daeargryn, yn cael ei reoli gan gangiau, sy'n codi cwestiwn ynghylch sut bydd y cymorth yn gallu cyrraedd y manau hynny lle mae ei angen. Gangiau fydd un o'r pynciau fydd angen sylw yn y dyddiau, yr wythnosau a'r misoedd i ddod.

'Ar hyn o bryd nid oes gennym ffigyrau ynghylch faint o gartrefi a ddistriwyd neu faint o bobl sydd wedi eu dadleoli, ond gwyddom fod pobl Haiti yn wydn. Ond faint mwy allan nhw ei gymryd?

'Mae ein partneriaid yn adrodd fod pobl eisoes yn gofyn am ba hyd fydd yn rhaid iddyn nhw fyw mewn pebyll, fel y bu raid iddyn nhw ei wneud yn dilyn daeargryn 2010.'

Yn dilyn daeargryn 2010, cydweithiodd Cymorth Cristnogol ag aelodau eraill o ACT Alliance i ailadeiladu cartrefi i 4,900 o bobl. Yn dilyn corwynt Mathew yn 2016, ailadeiladodd ein partner KORAL gartrefi i'r teuluoedd a effeithiwyd waethaf. Mae Cymorth Cristnogol yn gweithio gyda KORAL a Service Jesuit aux Migrants yn y sefyllfa bresennol.

Er mwyn cyfrannu at Apêl Frys Haiti, ewch i <https://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/haiti-earthquake-appeal>



Cofiwch am Sul yr Hinsawdd a gynhelir eleni ar Medi 5ed. Cyfle i godi ymwybyddiaeth ac i weddio dros beryglon newid hinsawdd, wrth baratoi ar gyfer cynhadledd COP26 yn Glasgow ym mis Tachwedd eleni. Beth am neilltuo amser yn eich oedfaon ar y Sul neu i chi fel unigolion dreulio amser mewn gweddi a myfyrdod yn bersonol adref.
Ewch i wefan <https://www.cytun.co.uk/hafan/sul-yr-hinsawdd/> i ganfod y deunydd addoli diweddaraf gan y gwahanol enwadau a mudiadau.

Lle i Enaid gael Llonydd – Fenis



Aled Lewis Evans

Ar gyfer 'Lle i enaid gael Llonydd' dwi'n mynd â chi ar daith i ddinas Fenis.

Yn gyffredinol, gwelaf Fenis fel actores dlos yn paratoi ei hunan ar gyfer perfformiad opera neu berfformiad theatrig, gan roi gwisgoedd amrywiol amdani. Bob bore mae brwsio cywrair ar y sgwariau fel rhoi llinell o golur yn ofalus i dynnu sylw at y llygaid. Yna, mae'r llifoleuadau'n cael eu rhoi yn eu lle, er mwyn i'r *diva* hon o ddinas greu effaith barhaol arnoch chi. Ond ar ddiwedd y dydd gadewir yr actores i'w hunigrwydd hi ei hunan. Gosodir y colur a'r llifoleuadau eto ar gyfer nosweithiau gŵyl, a rhoi sgrwb arbennig i'r glob aur. Erys hudoliaeth o'i chylch, ac mae'r actores yn cau'r drws heb ddatgelu'r cyfan, ac yn eich gadael yn chwilfrydig ac eisiau dychwelyd i ddarganfod mwy.

Mae Fenis yn seren chwaethus – y *serenissima*, ond byddai'n cymryd oes i ddod i adnabod y ddinas yn iawn. Honnodd Henry James ei fod yn lle 'to linger and remain and return'.

Naws ynys sydd i Fenis, a dim ond yn 1866 y daeth yn rhan o'r Eidal. Dwi'n hoff o lanw a thrai'r dydd yno, ac os ewch allan i'r nyssoedd yn y lagŵn, byddwch yn dychwelyd gan weld y

tyrau'n araf godi o'r lagŵn, weithiau mewn niwl.

Mae pawb yn sôn am freuder y ddinas, ei bod hi ar drugaredd yr elfennau – ond fe wela i gadernid yma hefyd, sy'n cysylltu â phrofiad a gefais yno yn



Llun: Riccardo Chiarini ar Unsplash

ugain oed pan oeddwn yn fyfyrwr coleg.

Trwy gydol fy oes dwi'n cofio mai yn y gornel gyfareddol hon o'r byd, pan oeddwn i'n fyfyrwr, y ces i brofiad ac ymdeimlad o gariad a chynhesrwydd Duw, sydd wedi aros efo mi bob dydd o'm hoes. Wrth dychwelyd efo cyfaill ysgol ar fws i Rimini ar ôl diwrnod arbennig yn Fenis. Doedd fy nghyfaill gerllaw ddim yn ymwybodol o'r profiad, ond wrth i'r haul fachlud roedd rhywbeth hefyd yn toddi yn fy nghalon ifanc i. Y ffynhonnell hon o fwynder, a brofais wrth sylly allan dros y lagŵn y noson honno, yw un o brofiadau mwyaf fy mywyd. Un o'r profiadau ysbrydol hynny rydym fel unigolion mor ffodus o'u cael yn ein gwahanol ffyrdd ac mewn gwahanol leoliadau.

Wedi'r profiad hwnnw, roedd y manau cysegredig y clywn ni amdanynt heddiw yn bwysicach i mi, ac yn fannau rwyf wedi ailymweld â hwy sawl tro bellach, ac yr hoffwn eu gweld eto.

Flynyddoedd wedyn ceisiais ysgrifennu am y profiad cychwynnol arbennig a roddodd gadernid i mi.

Diosg Masg

(Machlud lagŵn Fenis yn ugain oed)

Cofiaf y dydd o adlewyrchiad mwy ar wyneb tyner y lagŵn, y gwres a dreiddiodd i'm calon a rhoi i mi adenydd yn ei fachlud coch. Cafwyd gwefr yn rhad yn y bae pan drodd y lagŵn yn gefnfor Ei gariad.

Teg awel sydd ar daith ffarwelio heddiw, anwesaf las olau'r mwynder hwn un tro eto.

Byddaf yn fy nyled Iddo byth, am roi adlewyrchiad eirias i'm calon frau, un dydd pan oedd y bae yn iau.

Aled Lewis Evans
Wrecsam

Llongyfarch Chwech Treffynnon

Fore Sul, 18 Gorffennaf, yng nghapel Penbryn, Treffynnon, cynhaliwyd oedfa arbennig dan arweiniad y Gweinidog, Y Parchedig Huw Powell-Davies. Yr organydd oedd Heulwen Closs Sharp o eglwys Carmel. Dyma'r ail oedfa i ni ei chael fel eglwys ym Mro Treffynnon ers dechrau'r cyfnod clo. Mae eglwys Carmel a Sion, Lloc (Wesleaid), yn rhan o'r trefniant, a byddwn yn cydaddoli â'n gilydd bob Sul.

Yn ystod y gwasanaeth llongyfarchodd y gweinidog chwech o flaenoriaid am gyflawni 40 mlynedd o wasanaeth: tri o eglwys Carmel a thri o eglwys Penbryn (Rehoboth oedd enw'r capel bryd hynny). Cawsom ein hethol yn 1980; y tri o Garmel oedd Norman Closs Parry, Tegwyn Thomas a Tom Williams, a'r tri o Rehoboth oedd Geraint Jones, Glyn Owen a minnau. Mae pump ohonom yn bobl ddwâd i'r ardal, heblaw Tom Williams, a gafodd ei fagu yn y cylch.

Y llywydd oedd Norman Closs Parry, a oedd wedi ysgrifennu englyn i gofio'r amgylchiad:

40 mlynedd

Aseiniad i wasanaeth – hyn i'n Tad,
Tŷ, teulu a'n talaeth,
Yn ddim y blynyddoedd aeth,
A hanes yw'r gwahaniaeth.

Cawsom i gyd ein hanrhegu â thystysgrif o Sasiwn y Gogledd a cherdd wedi ei llunio gan Cen Williams o Ynys Môn.

Yn ystod yr 50 mlynedd y bûm yn y cylch fe wasanaethwyd gan nifer o wahanol weinidogion: yn Rehoboth, gan y diweddar Trebor Mai Thomas, y diweddar John Tudor, Cledwyn Griffith, Robert Owen Griffith ac yn awr y Parch Huw Powell-Davies. Y diweddar W. O. Barnet oedd yn weinidog yng Ngharmel ar ddechrau'r 70au ac yna'r diweddar Alun Williams. Ar ôl hynny daeth Carmel a Rehoboth yn rhan o'r un ofalaeth.

Er ein bod wedi gweld lleihad mawr yn nifer yr aelodau yn y fro yn y deugain mlynedd diwethaf mae ychydig o weddill ffyddlon ac mae cydweithio hapus rhwng aelodau'r tair eglwys. Yng ngeiriau Dafydd Iwan, gallwn ddweud: 'Ry'n ni yma o hyd'.

R. Alun Evans
Gorsedd, Treffynnon



Yn y llun gwelir, o'r chwith i'r dde (gan gadw pellter): Glyn Owen, Y Parchedig Huw Powell-Davies, Tegwyn Thomas, Norman Closs Parry, Tom Williams, Geraint Jones ac R. Alun Evans

Salm fodern: Clodfori Duw yn y byd cyfoes

Mawrygaf y fraint, O Dduw yr oesoedd, am gael byw yng nghanol blynyddoedd golau yr ail fileniwm ac nid yng nghynteddoedd tywyll rhyw "orffennol gwych".

Am hynny yn wastadol, caf ymladd yn y frwydr i drechu llygredd, ac ymdaith yn rhengoedd ymgrychwr y chwyldro gwyrdd.

Bydd llawenydd ar lan yr afon o weld y brithyll a'r eog yn heigio eto, a'r gylfinir yn chwibanu uwch y rhostir a'r grugiar yn dychwelyd i glochdar yn ystlysau'r mynyddoedd.

Bwytawn fwyd iach a daw cynnyrch o'r tir lleol i ddiorseddu'r bwydydd parod ar silffoedd ein harchfarchnadoedd.

Ym meudai ein ffermydd, gwaredir y buchesi o hen heintiau, a phreiddiau'r maes a bawr dir lle ni wasgerir gwrteithiau o gemgau gwenwynig. Gwerthfawrogwn, O Dad, i ti yng Ngenesis byd lunio daear a môr yn llawn o fwynau naturiol fel y medrwn yn y blynyddoedd hyn ymchwilio i'w craidd am nerthoedd i ymgodymu â llygredd yr ydym yn euog o'i achosi gan ein byw gwastraffus.

Agorir yr ucheldir i ymwelwyr a'u teuluoedd i werthfawrogi mwynnderau natur heb erledigaeth deddf nac anifail.

Mawrygaf dy fendith o gael oesi ym mlynnyddoedd rhyddid yr unigolyn, pan na fydd rhwymau cred yn llyffetheirio'r meddwl, na chrebachu bywyd. Ni fydd dim yn ein dallu rhag disgleirdeb goleuni cyffrous dy ffyrdd eang di i gyfiawnder.

Blynyddoedd y diogelwch fydd y rhain. Y mae dyddiad ein geni ar ffeiliau cyfrifiadurol. Deuir atom mewn eiliadau trwy god post. Ond, O Dad nefol, gwyddom dy fod tithau yn ein hadnabod trwy weddiau a gweithredoedd da.

Yr asiantaethau a gadwant bob gwybodaeth sydd yn gyfrinachol adnabod ein bodolaeth.

Diolch, O Dad, fy mod yn byw yn oes yr ysgaru rhesymol, pan nad oes angen i deulu dreulio bywyd mewn nychdod a dioddefaint, heb le i roi pen i lawr yn nydd yr argyfwng.

Rhodaist inni obaith am ddydd pryd y dilêir trais, pan ddfethir drygioni'r mawrion a'r trachwantus, ac y glanheir temlau lle bu budr elw'n dinistrio bywyd y diniwed.

Yn nydd perffeithio profion DNA, bydd ein strydoedd mor ddiogel i'w rhodio â ffyrdd y bywyd graslon y bu dy Fab, yr Arglwydd Iesu, yn deisyfu i ni eu rhodio.

Gorfoleddaf am yr arian elusenol a gesglir at waith ymchwil i ymgodymu â chlefydau parhaus, ac i ddatblygu cemegau ac offer sy'n esmwytho'r corff rhag dirywiad cynnar.

Am hynny, llawenyachaf am gael treulio fy nyddiau i'th ogoneddu di ym mlynnyddoedd yr ail fileniwm.

Y mae rhinwedd dy gariad a'th ras yn treiddio i Ddeddfau lechyd a Diogelwch sydd yn ein gwarchod rhag gorflinder a damweiniau, ac i nawdd cymdeithasol yn nydd angen.

Diolch, O Dad. Anrhydeddaist ni â'r fraint o gael byw yn yr amser cyfoes hwn.

Gwas ydwyf

Sylw o'r seidin

Messi, cnau mwnci a Chofid

Ychydig dros dair blynedd yn ôl cefais y fraint o fod yn Neucamp yn gweld Lionel Messi yn gweithio'i hud a'i ledrith wrth lywio'i dîm i fuddugoliaeth haeddiannol. Roedd yn noson braf a'r awyrgylch yn y stadiwm yn gyfeillgar drydanol wrth i deuluoedd a grwpiau o gyfeillion fwynhau'r wledd ddatblygodd ger ein bron.

Yn ddiweddar cyhoeddwyd bod Lionel Messi ar fin trosglwyddo i glwb Paris St Germain, a hyn wedi ugain mlynedd a mwy o yrfa hapus gyda Chlwb Barça. Cefais fy syfrdanu o ddeall faint o gyflog y byddai Messi yn ei dderbyn gan glwb pêl-droed Paris St Germain – hanner miliwn o bunnoedd yr wythnos! Tydi'r gair 'amazing' ddim yn cyffwrdd y peth rywsut!

Clywsom fod Messi yn methu cysgu, yn methu credu, yn methu gweld y ffordd ymlaen – yn methu credu na allai Barça dalu cyflog mawr iddo bellach; yn methu credu nad oedd Barça am barhau i'w gadw wedi'r holl flynyddoedd o gyfrannu at lwyddiant y clwb!

Yna, yn yr un anadl, bron, fe glywsom am hanes un o gyn brif-weinidogion ein gwlad yn derbyn cyflog o ddeng miliwn o ddoleri Americanaidd (tua 7 miliwn o bunnoedd) gan gwmni y bu'n ymgyrchu ar eu rhan, cwmni a aeth yn fethdalwr yn fuan wedyn. A wnawn ni ddim sôn am sgandal y contractau PPE drws cefn a roddwyd i gyfeillion aelodau'r cabinet tua Llundain yn ystod cyfnod y pandemig!

Pan oeddwn yn weinidog, roeddwn i'n poeni ac yn gofidio weithiau mod i'n gofyn am ffi o £100 am weinyddu mewn angladd a phriodas. Yr hyn a'm synnodd hefyd oedd cyn lleied yr oedd rhai eglwysi'n barod i gydnabod ar gyfer gwasanaethu ar y Sul, fel petai oedfa yn llai o werth na gweinyddu mewn angladd neu briodas, er enghraifft.

Dyna fo – tydi gweinidogion, o ba bynnag enwad, ddim i fod i drafod pethau fel hyn yn gyhoeddus, nac ydyn? Clywais sôn fod un cennad wedi dweud wrth ysgrifennydd cyhoeddiadau rhyw gapel



Llun: Trwy garedigrwydd PSG

nad oedd am dderbyn Sul arall gan yr eglwys gan nad oedd y gydnabyddiaeth a gafodd yn ddigon i gyfiawnhau tynnu'r car o'r garej a theithio yno i bregethu!

Wrth groesawu ar ran yr Henaduriaeth mewn cyfarfod sefydlu ryw dro, atgoffwyd yr ofalaeth na ddylid goreuro'r caets a llwgu'r bwji. Ac wrth gyflwyno'r siars dywedwyd wrth swyddogion yr ofalaeth yn glir: os oedden nhw'n bwriadu talu *peanuts* i'w gweinidog newydd, ddylen nhw ddim synnu os mai mwnci a gawson nhw wrth ei waith.

Fe ddylwn ddweud yn y fan yma fy mod wedi cael fy nghydnabod yn anrhydeddus bob amser ac yn fythol ddiolchgar am y gefnogaeth a gafwyd dros y blynyddoedd – a bod gen i alergedd go eger i gnau mwnci o bob math, beth bynnag. Nid felly y bu ym mhobman, dwi'n siŵr.

Ond dyna fo, beth yw hynny ochr yn ochr â'r anawsterau fydd yn wynebu'r eglwysi

a'r enwadau Cristnogol Cymraeg yn y blynyddoedd nesaf yma. Mae Covid-19 wedi agor bocs Pandora o ansicrwydd, ofn, a diffyg hyder – diffyg menter o bosib hefyd, o gofio cyfartaledd oedran ein haelodau erbyn hyn. Ac mae hyn yn gwbl ddealladwy, wrth gwrs.

Sdim ots ai trefn gyfundebol ganolog neu gyfansoddiad lleol sy'n rheoli bywyd eglwys, bydd raid wynebu'r amgylchiadau yn realistig ac yn greadigol. Fydd dim pris yn y byd y gellir ei gynnig, na'i dalu, am lwyddiant a bywyd newydd, os ydym am oroesi fel cynullïadau o bobl Dduw.

Peidied neb ohonom â gweld bai ar y drefn eglwysig yr ydym yn perthyn iddi, ond 'dewch inni weithio tuag at sicrhau gwaredigaeth newydd i'n haelwydydd a'r arweinwyr ysbrydol fydd yn rhoi llwyfan a lwyddiant i Efengyl Iesu Grist am flynyddoedd i ddod.

Jim Clarke

Llanfair-pwll



Climate Sunday



Sul yr Hinsawdd

Gwahoddiad i chi!

Oedfa Sul yr Hinsawdd y Cenhedloedd

Eglwysi yn paratoi ar gyfer COP26

5 Medi am 4:00 yp

Cadeiriain Glasgow ac arlein

Cofrestrwch: <https://nationsclimatesunday.eventbrite.co.uk>



'Darganfod' 2021 – cwrs cenhadol newydd i eglwysi gan Undeb Bedyddwyr Cymru

Roedd pethau'n ddigon heriol ar ein heglwysi cyn i'r pandemig daro. Ac erbyn hyn, ar ôl blwyddyn o golled, cyfnodau clo ac oedfaon ar-lein, mae'n siŵr fod llawer ohonom yn teimlo'r baich o 'ddal ati' yn fwy fyth. Does dim amser gwell, felly, i gymryd cam yn ôl a gofyn y cwestiynau mawr:

- ydy Duw wir ar waith yn ein cymunedau ni?
- sut siâp fydd ar Gristnogaeth yng Nghymru ymhen deng mlynedd?
- oes yna atebion gonest i'w cael yn y Beibl allai roi arweiniad i ni?

Dyma'r union gwestiynau sy'n sail i'r cwrs 'Darganfod'. Yn sgil llwyddiant y cwrs y llynedd a'r ffaith fod cynifer wedi gofyn i ni barhau i'w gynnal, rydym yn falch o gyhoeddi y byddwn yn rhedeg ail flwyddyn ohono eleni, a hynny unwaith eto yng nghwmni Cam Roxburgh o Ganada. Bydd cynnwys y cwrs yn wahanol i'r llynedd, ac mae croeso i unrhyw un ymuno nad oedd gyda ni y tro diwethaf!

Yn Saesneg y bydd cyflwyniadau Cam, ond bydd grŵp trafod cyfrwng Cymraeg yn rhan bwysig o bob sesiwn. Dilyn llyfr cyffrous David Fitch, *Faithful Presence*, fydd y cwrs eleni, ac mae'r llyfr yn dangos, gydag enghreifftiau go iawn, sut y gall presenoldeb ein heglwysi yn ein cymunedau gael eu trawsnewid gan Dduw.

Meddai'r Parch Simeon Baker, 'Mae llawer o eglwysi'n credu bod unrhyw ymgais ar genhadaeth rywsut y tu hwnt i ni ac yn ei gwneud yn ofynnol i ni gadw i fyny â'r holl dueddiadau diweddaraf, i fod yn fwy modern a chyfoes. Mae'r llyfr syml hwn gan David Fitch, sy'n hawdd ei ddarllen, yn adrodd stori wahanol. Mae'n siarad am




arferion ffyddlon yr eglwys ac yn ein herio i aildarganfod sut y gallant effeithio ar ein cymuned. Pam na wnewch chi ymuno â ni unwaith y mis gyda Cam wrth i ni archwilio sut i fod yn bresenoldeb ffyddlon Duw mewn byd sydd wir angen hynny?'

Mae'r llyfr ar gael ar-lein trwy Amazon ac mewn manau eraill am tua £10.

Dyma gyflwyniad i'r cwrs gan Cam ei hun: <https://youtu.be/uh0ht5L2qD8>

Mae modd cofrestru trwy gysylltu â swyddfa'r Undeb: drwy ffonio 0345 222 1514 neu e-bostio: post@ubc.cymru – bydd y sesiynau misol yn dechrau fis Medi, felly cofrestrwch cyn gynted ag y bo modd!



Gweddï o edifeirwch ar gyfer Sul yr Hinsawdd:

Dduw'r creawdwr, a wnaethost y nefoedd a'r ddaear, cydnabyddwn i ni fethu â byw mewn modd cyfrifol fel rhan o'th greadigaeth. Rydym wedi cymryd yr hyn oeddem ei eisiau, heb ystyried y canlyniadau; rydym wedi gwastraffu a thafllu ymaith, heb hidio am y dyfodol. Agor ein calonnau a'n meddyliau i weld arwyddion ein hamserau, i glywed ochneidio'r greadigaeth, fel y bydd i ni gefnu ar ein trachwant a'n diffyg gweledigaeth a gweld byd sydd yn cael ei greu o'r newydd drwy Iesu Grist ein Harglwydd, Amen.

Gweddï o ymrwymiad ar gyfer Sul yr Hinsawdd:

Arglwydd bywyd a'r un sy'n rhoi gobaith, ymrwymwn i ofalu am y greadigaeth, i leihau ein gwastraff, i fyw'n gynaliadwy, ac i werthfawrogi amrywiaeth cyfoethog bywyd. Bydded i'th ddoethineb ein tywys, fel y bydd i fywyd o bob math ffynnu a lleisio'n ffyddlon foliant y cread. Bydded i ni fyw yn gyson â'r ymrwymiad a wnaethom heddiw. Amen

Gweddï o ymbil – dros gynhadledd COP26:

Dduw'r Creawdwr, rhoddwr bywyd, ti sy'n cynnal y ddaear ac yn cyfarwyddo'r cenhedloedd. Yn nyddiau argyfwng yr hinsawdd rho i ni glywed yn eglur ochneidio'r greadigaeth a llefain y tlodion; heria ni i newid ein ffordd o fyw; tywys ein harweinwyr i weithredu'n eofn; gwna dy Eglwys yn goelcerth gobaith; a meithrin ynom weledigaeth newydd o'th fwradau di ar gyfer dy fydd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, gan yr hwn ac er mwyn yr hwn y gwnaed popeth sydd yn bod, Amen.

Tair Salm



Mae'n siŵr bod llawer o ddarlennwyr *Cenn@d* wedi mwynhau'r gyfres *Tri Lle* ar y teledu. Cyfres oedd hon yn rhoi cyfle i nifer rannu â ni y tri lle oedd yn cyfrif yn eu bywyd nhw. Fel rheol roedd y cyfranwyr yn rhai oedd wedi bod yn llwyddianus yn eu gyrfaedd. Wrth wyllo'r rhaglen, roedd llawer ohonom yn siŵr o fod yn gallu uniaethu â phrofiad ambell un o'r rhai oedd yn agor eu calon inni. Efallai y gallem ddweud ein bod yn adnabod rhai ohonynt yn eitha da.

Yn yr erthygl hon rwyf am gymryd trywydd gwahanol. Un person sy'n rhannu ei brofiad gyda ni, ac nid yw'n berson y gallwn ni ddweud ein bod yn ei adnabod yn dda. Dim ond ein bod wedi clywed llawer amdano. Roedd hwn yn byw tua 3000 o flynyddoedd yn ôl, mewn gwlad nad oes ond ychydig ohonom wedi bod ynddi.

Ar ôl dweud hynny, fe wyddom lawer iawn amdano, ac fe wyddom lawer iawn am y wlad lle roedd ef wedi treulio'i holl fywyd. Rydym wedi darllen amdano: yn ieuengaf o wyth o frodyr, yn fugail ar ddefaid ei dad, ac yn uchel ei barch gan lawer pan oedd yn arwain rhyfeloedd dros y brenin. Yn ddiweddarach mae'n cael ei ddewis yn frenin ei hun. Nid oes raid imi roi enw iddo – rydych i gyd yn gwybod am bwy rwy'n sôn. Fel cymeriadau'r *Tri Lle*, gallwn ei ddisgrifio fel un llwyddianus yn ei yrfa.

Rhywbeth arall sy'n wir amdano yw ei fod yn fardd toreithiog. Cyfansoddodd lawer iawn o farddoniaeth sy'n cael eu galw'n emynau ei genedl. Sôn yr wyf, wrth gwrs, am y farddoniaeth sy'n dwyn yr enw salmau gennym ni.

Rwyf wedi dewis tair salm sy'n gyfarwydd iawn i bob un ohonom: tair salm sy'n cael eu cynnwys ar ddiwedd *Caneuon Ffydd*, tair salm sy'n ddarlun da o unrhyw un sy'n cymryd ei ffydd o ddifrif. Er eu bod wedi cael eu cyfansoddi ymhell cyn dyddiau Crist ar y ddaear maent yn rhai y gall y Cristion uniaethu â nhw.

Rwy'n dechrau gyda Salm 8, lle mae'r awdur yn sefyll, yn sylu ac yn rhyfeddu at allu'r Creawdwr, fel mae'n ymddangos ym myd natur. Mae'n cychwyn gyda mynegiant o ryfeddod ac yn diweddu gyda mynegiant o ryfeddod: 'Arglwydd ein lor, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear.' Hawdd gallwn ni uniaethu â'r awdur wrth edrych ar ryfeddod y byd o'n cwmpas.

Yr ail salm sy'n werth rhoi sylw iddi yw Salm 1. Yn y salm hon mae'r awdur yn gweld gwerth yn y geiriau mae'r Arglwydd wedi eu rhannu â ni. Mae'n ein hargymell i roi sylw manwl iddynt, i fyfyrion arnynt, ac i droi atynt yn aml. Maent yn ddarlun o rywun sydd yn cymryd ei ffydd o ddifrif.

Mae'r drydedd salm rwy'n tynnu sylw ati, sef Salm 23, yn fynegiant o hyder yr awdur. Mae'n mynegi ffydd yn ei Arglwydd, yn dangos ei fod yn siŵr y bydd ei Arglwydd gydag ef, i wynebu hawddfyd ac i wynebu dyddiau blin. Ac ar ben hyn oll mae'n edrych ymlaen at yr amser pan fyddai'n cyfarfod ei Arglwydd wyneb yn wyneb.

Rwyf fi'n bersonol wedi cael llawer iawn o fudd wrth ddefnyddio'r salmau hyn yn faes myfyrdod. Maent yn salmau eitha byr, y gellir eu dysgu ar y cof, a'u hadrodd i ni ein hunain. Po fwyaf y mae rhywun yn rhoi sylw iddynt, po fwyaf y mae rhywun yn ei gael ynddynt.

Mae gan Nantlais emyn sy'n crynhoi'r gwerth sydd i'w gael o roi mwy o sylw i gynnwys y Beibl:

Wele'r Athro mawr yn dysgu
dyfnion bethau Duw;
dwyfol gariad yn llefaru
f'enaid, clyw!

Arglwydd, boed i'th eiriau groeso
yn fy nghalon i;
crea hiraeth mwy am wrando,
arnat ti.

Dyro inni ras i orffwys
ar dy nerth a'th ddawn;
tyfu'n dawel yn dy Eglwys,
ffrwytho'n llawn.

Pob bendith ar y darllen a'r myfyrio.

Tom Williams
Dinbych



EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

Gofalaeth Bangor
a'r Cyffiniau

Gweithiwr Plant, Ieuentid a Theuluoedd

Mae Gofalaeth Bresbyteraidd Bangor a'r Cyffiniau yn chwilio am berson egniol a brwdfrydig i weithio yn ei thair eglwys a datblygu'r gwaith ymhellach.

Oriau: 35 awr yr wythnos
(neu oriau i'w trafod)

Cytundeb: 3 blynedd yn y man cyntaf
gyda'r 6 mis cyntaf yn
gyfnod prawf

Cylog: Graddfa 20-24 (£22,371 -
£24,477) a chyfle i ymuno â
phensiwn EBC

Mae'r Swydd hon yn amodol ar
ddatgeliad DBS manwl a dau eirida
boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol
Cristnogol ac Iaith Gymraeg yn
berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am
ffurflen gais, cysylltwch ag:

e-bost – Cynthia Owen,
cynthiaowen@tiscali.co.uk
ffôn – 01248 364008

Dyddiad cau : Medi 13eg 2021

Capel Maesyffynnon, Llangybi, Ceredigion – diwedd cyfnod a dechrau un newydd

Cynhaliwyd Gwasanaeth Datgorffori Capel Maesyffynnon, Llangybi, brynhawn Sul, 1 Awst, dan ofal Mr Martin Lewis, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro. Cyfarfu cynulleidfa o 35 o bobl yn yr awyr agored o flaen y capel, er mwyn cadw pawb yn ddiogel. Croesawyd aelodau, cyn-aelodau, cyfeillion a chynrychiolwyr o gapeli'r ardal ac o'r Henaduriaeth. Trefnwyd y rhaglen gyda chymorth y Llywydd a'r Parch. Carwyn Arthur, Ysgrifennydd yr Henaduriaeth. Cyflwynwyd yr emynau, darlleniad a'r weddi gan y Llywydd, gyda'r Parch. Roger Ellis Humphreys yn arwain y canu.

Cyflwynwyd hanes yr achos gan y Parch. Stephen Morgan. Cafwyd ganddo ddarlun cyfoethog o'r cefndir a'r hanes, yn seiliedig ar waith ymchwil trylwyr. Gellir darllen yr ysgrif yn rhifyn Medi o bapur bro Clonc (ardal Llanbedr Pont Steffan). Dyma'r gerdd a gyfansoddwyd ganddo sy'n diweddu'r ysgrif, gan ddiolch am ei ganiatâd i'w chyhoeddi:

Yma bu bendith y Ffynnon
Yn ffrydiau iachusol di-drai,
A'r werin fu'n ddrachtio yn gyson
O'r tarddiad sy'n rinweddol lanhau.

Caed gafael ar Efengyl yr Iesu
Drwy bregeth a gweddi a mawl;
Er estyn rhinweddau gwir gariad
I'r difreintiau gael haeddiant – eu hawl.

Daliwn ati i dynnu o'r Ffynnon
Er mwyn byw yn union a thriw,
Gan estyn hanfodion gwir fywyd
A berffeithiwyd yn Iesu gan Dduw.



Diolchwyd i aelodau'r capel, ac yn arbennig i Mrs Sally Davies, Trysorydd; Mrs Mair Spate, Ysgrifennydd; a Mr Eifion Davies, am eu croeso hyfryd a'u trefniadau gofalus. Cafwyd cyfle i ymweld â'r adeiladau am y tro olaf ar derfyn y gwasanaeth.

Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda Mrs Sally Davies a Mr Martin Lewis a gyhoeddwyd ar ar wefan Clonc360 (<https://clonc.360.cymru/2021/diwedd-cyfnod-nghapel-maesyffynnon-llangybi/>) Dywedodd Mrs Davies yn ei chyfweiliad fod y capel yn cau am amryfal resymau, 'Yr ydym yn un ar ddeg ar y llyfrau ond mae tri o'r rheiny mewn cartref hen bobl a phump ohonom sy'n dod yma'n gyson.' Eglurodd fod y capel wedi bod ar gau ers cyn cyfnod y pandemig oherwydd bod hollt wedi ymddangos yn y nenfwd ac y byddai'n costio'n ddrud i'w drwsio. Soniodd eu bod yn cydaddoli ag aelodau Ebeneser, capel yr Annibynwyr, yn Llangybi, a bydd 'tri, mwy na thebyg, yn ymuno yno tra bydd dau yn mynd i Lanbed'. Mae'n galonogol deall y bydd cyn-aelodau o Gapel Maesyffynnon yn ymuno â chynulleidfaoedd mewn capeli eraill yn Llangybi a Llanbedr Pont Steffan.

Rhys Bebb Jones



Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Croeso adre!

Gweddi

O Dduw, a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, fel y Salmydd gynt, yr wyt wedi ein rhyddhau drwy dy Ysbryd Glân i'th foli di. Oherwydd dy ras, cawn 'ganu i'm Duw tra byddaf'. Cynorthwya ni yn awr i ymddiried ynot, i bwyso arnat, i ganfod dy ogoniant a'th wasanaethu. Amen.

Emyn 365:

'Caed baban bach mewn preseb'

Darlleniad: Marc 7:24-37 **

Un o'm hoff bethau, pan oeddwn yn blentyn, oedd y llyfrau lliwio hynny lle'r oedd amlinelliad moel rhyw greadur i'w weld ar y ddalen. Rhaid oedd lliwio'r llun yn ofalus a dilyn y rhifau oedd yn cyfateb i liwiau gwahanol. Ac wrth liwio'n ofalus byddai'r jyngl a'r awyr, y blodau a'r teigr yn dod yn amlwg. Byddai pob blwch, o'i liwio'n gywir, yn ychwanegu haen fyddai'n cwblhau'r campwaith!

O'r cychwyn cyntaf mae Marc wedi dweud wrthym beth fydd bras amlinelliad ei efengyl. 'Dechrau efengyl Iesu Grist, Mab Duw' yw ei stori (1:1). Gwelsom eisoes enghreifftiau o Marc yn arwain ei ddarllenwyr i holi'r cwestiwn, 'Pwy yw hwn?'

Heddiw, ychwanegir haen arall o liw i'r darlun. Pwy yw hwn ymwelodd â Thyrua a Sidon, gan adael Galilea ei fagwraeth dros dro? Bellach gwelwn fod Iesu wedi teithio i'r Decapolis (deg tref) oedd ar lan ddwyreiniol yr Iorddonen. Ardaloedd oeddynt lle'r oedd canran uchel iawn o 'genedl-ddynion', nad oeddynt yn Iddewon, wedi ymgartrefu ynddynt, yn ogystal ag Iddewon oedd wedi derbyn dylanwadau ac arferion Helenistaidd. O bosib, dull llaw fer yw hyn o ddisgrifio tiriogaeth na fyddai'n lle 'cyfforddus' i Iddew o rabi 'parchus' dreulio'i amser, ymysg pobl na fyddai'n cael eu hystyried fel rhai amlwg i'r Athro teithiol hwn oedi yn eu plith.

Ond fe gofiwn mai yn nhir y Decapolis yr iachawyd Llang o'i gaethiwed, ac o orthwrwm ysbrydion aflan (Marc 5). Dychwelodd Iesu i'r ardal. Ac yn ei weithred dosturial rhyddhawyd caethiwed gŵr mud a byddar.

Mor gynnill yw disgrifiad Marc o'r ddrama a'r weithred broffwydol hon:

Cyfeillion

'Dygasant ddyn ato,' meddai Marc (7:32). Ni wyddom pwy oedd y cymdogion caredig yma. Ond roedd eu caredigrwydd a'u cyfeillgarwch gymaint nes iddynt dywys y

gŵr at Iesu. Cymaint yw ein baint ninnau heddiw i fod yn dystion i'r Arglwydd Iesu a'i dosturi tuag at fyd mor ddolurus â hwn. Yn ein gweddiâu ceisiwn 'ganddo roi ei law' ar ein hanwyliaid. Tystio yn unig a wnawn ni. Iesu yw'r iachâwr.

Tynerwch

Mor dynyr yw ymwneud yr Arglwydd Iesu â'r gŵr. Fe wŷr unrhyw un sydd wedi ceisio cynnal sgwrs â rhywun trwm ei glyw ei bod yn amhosibl cynnal 'sgwrs breifat' mewn stafell gyhoeddus.

Er mor niferus oedd y dyrfa, nid perfformiad er mwyn boddhad y dyrfa oedd y trugaredd a ddangoswyd i'r gŵr anghenus hwn. O dan arweiniad Iesu, cyfarfu'r gŵr mud a byddar ag ef, ar wahân i'r 'dyrfa ar ei ben ei hun'. Cymaint yw tosturi'r Arglwydd fel ei fod yn delio â'r gŵr o'r neilltu, mewn dull personol, addas i'w gyflwr. Ac mewn dull personol, o'r neilltu, yn nirgelion ein calonnau y mae ef yn parhau i ymwneud â'n calonnau ni.

Drama'r iachâw

Mewn drama rasol cyffyrddodd yr Arglwydd â'i glustiau gan ryddhau ei glyw. Wrth gyffwrdd â'i dafod cyhoeddodd, 'Ephphatha' (gair oedd yn tarddu o hen iaith y Caldeaid), hynny yw, 'agorer di'. A rhyddhawyd y gŵr o'i fyddardod a'i fudandod. Yn y weithred symbolaidd sicrhawyd y gŵr fod gweithred o iachâd wedi ei chyflawni a gair Iesu'n llawn o allu iachusol.

Dihangfa

Mae Marc yn defnyddio dau air dramatig i ddisgrifio beth ddigwyddodd nesaf.

'Agorwyd' a 'datodwyd rhwym ei dafod', meddai. Bu'r gŵr yma mewn carchar a chaethiwed. Roedd drws y gell yn gaedig o'i flaen ac ni allai ddianc o'i gyflwr drwy ei alluoedd ei hun. Rhaid oedd wrth ymyrraeth rhywun arall.

Nid damweiniol chwaith yw'r defnydd o'r darlun o gaethiwed a ddefnyddir gan Gristnogion i ddisgrifio'r hyn a wnaeth Iesu yn eu bywydau. Oni allai Dafydd Jones o Gaeo gyhoeddi: 'Mae Iesu wedi cario'r dydd,/ Caiff carcharorion fynd yn rhydd?'

Consuriog

Ond nid tric consuriwr oedd yr iachâd yma. Mae'r 'a chan edrych i fyny i'r nef' yn cyhoeddi tarddiad y rhodd iachusol. Rhodd Duw ydoedd. 'Ochneiodd' Iesu, meddai Marc. Mae'r gair a ddefnyddiodd yn golygu 'ochenaid sy'n cyfleu dyhead, neu alar, neu

riddfan sy'n fynegiant o boen, neu o rwystredigaeth neu o angerdd'. O dan deimlad am gyflwr a chaethiwed a phoen y gŵr ac am ddiodeffaint y byd griddfanodd Iesu.

Cyflawni addewid

Yn y ddrama drugarog hon cyflawnwyd proffwydoliaethau'r Ysgrifurau Iddewig. (O ddarllen Eseaia 35:4-10 deallwn ergyd y wyrth.) Dyma gyflawni'r addewid: 'cânt weld gogoniant yr arglwydd, a mawrhydi ein Duw.' (Eseaia 35:2)

Lliwiau a haenau

O ddychwelyd at y darlun a ddefnyddiwyd ar ddechrau ein myfyrdod, mae Marc fel petai'n ychwanegu haen arall o liw at ei bortread o Iesu ac o arwyddocâd ei ogoniant gostyngedig.

Wedi ei adnabod, nid allai'r dorf ymatal rhag 'cyhoeddi'r peth' a hynny am iddynt gael eu synnu gan y fath drugaredd. Ac mewn gair sy'n adleisio ymateb yr Arglwydd Dduw i'w weithgarwch creadigol yn Genesis 1 cytunodd y dyrfa mai 'Da y gwnaeth ef bob peth'.

Hyd heddiw, hyd dragwyddoldeb ei hun, ni pheiodd, ac ni pheidia, rhyfeddod ei bobl, na'u diolch am gyfyngwr, am waredwr cryf i'r gwan.

Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, daethost ti dy hun yn gyflawniad i obaith a hiraeth dy bobl. Agoraist lygaid y deillion a chlustiau'r byddariaid; tywelltais ddŵr bywiol dy Ysbryd ar ein byd. Arglwydd, hiraethwn yn ein hoes am brofi tywalltiad o'th Ysbryd Glân fydd yn troi'r crastir yn llyn a'n llwybrau troellog ni, llwybrau sy'n arwain i unlle, yn briffordd sanctaidd i fywyd llawn. Rho i ninnau'r fraint bob dydd i barhau i radio ar hyd-ddi.

Cyffeswn, O Arglwydd, i'n clustiau fynd yn fyddar i'th leferydd. Aeth ein mawl yn fud. A threngi a wna'r byd heb i fawl yr angylion gael ei ddyblu ym moliant dy eglwys. Cyhoedda 'Ephphatha' – agorer di – i'th eglwys heddiw er mwyn i'r byd yn grwn gael clywed y neges mai 'da y gwnaeth ef bob peth'. Clyw ni, drwy allu'r Ysbryd Glân, er gogoniant i'r Tad.

Emyn 330: 'Fy Nuw, fy Nhad, fy Iesu'

** Trafodwyd ymwneud yr Iesu â'r Ganaanees yn *Y Goleuad* (14 Awst 2020)

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru